

Ymgynghoriad ar ddiwygio'r ffioedd sy'n daladwy am geisiadau o dan Adran 37 o Ddeddf Trydan 1989

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â diwygiad arfaethedig i'r ffioedd sy'n daladwy i DECC mewn perthynas â cheisiadau am ganiatâd datblygu ar gyfer llinellau trydan uwchben y ddaear o dan Adran 37 o Ddeddf Trydan 1989. Ar hyn o bryd, codir ffi o £50 ar gyfer pob cais, sef y gyfradd a bennwyd yn y Rheoliadau a ddaeth i rym ym 1990. Nid yw'r gyfradd erioed wedi cael ei hadolygu.

Mae gan y Llywodraeth bolisi sefydlog y dylai'r ffioedd ar gyfer y gwasanaethau y mae'n eu darparu fod ar sail "adennill yr holl gostau". Costau cyfartalog DECC i brosesu ceisiadau am ganiatâd datblygu i osod llinellau trydan uwchben y ddaear yw £100,000 y flwyddyn . Mae DECC yn cael 2,550 o geisiadau'r flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hi'n amlwg nad yw'r ffi gyfredol yn cyd-fynd â'r polisi o "adennill yr holl gostau", a rhandal yw hi i bob pwrpas.

Rydyn ni'n cynnig felly y dylid diwygio'r ffioedd sy'n daladwy i DECC am geisiadau ar gyfer caniatâd datblygu er mwyn dod â nhw'n agosach at yr egwyddor o "adennill yr holl gostau". Mae dau opsiwn dan ystyriaeth, sef

- Cynyddu'r ffi am bob un cais i'r fath lefel ag a fyddai'n cynhyrchu refeniw blynyddol er mwyn symud y ffioedd i gyfeiriad adennill y gost o ystyried ceisiadau, sef 'ffi sefydlog'; neu
- Cyflwyno ffioedd sefydlog ar gyfer ceisiadau o dan gategorïau penodedig o linellau trydan uwchben y ddaear, sef "ffi sefydlog ar sail categori'r gwasanaeth".

Ein dewis ni fyddai pennu ffi sefydlog ar sail categori'r gwasanaeth.

Ar sail cyfartaledd blynyddol y ceisiadau sy'n dod i law DECC, rydyn ni'n amcangyfrif y byddai'r opsiwn o bennu ffi sefydlog ar sail categori'r gwasanaeth yn golygu costau ychwanegol o rhwng £8,000 a £10,000 y flwyddyn i bob un o Weithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu a chost ychwanegol o £19,950 y flwyddyn i Weithredwyr y Rhwydwaith Trawsyrro (heb yr union gostau sy'n dibynnu ar nifer).